Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 23 Medi 2019, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer) Y Cynghorwyr Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

82. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Ian Lewney, Jabez Oakes a Dave Snape.

83. CYFLWYNIAD GAN HEDDLU RHUTHUN

Croesawodd y Maer Sarjant Martin Jones i'r cyfarfod. Hysbysodd yr aelodau y bu cynnydd mewn defnyddio cyffuriau a gwerthu cyffuriau yn yr ardal, a hefyd masnachwyr twyllodrus a dwyn yn yr ardaloedd gwledig. Pwysleisiodd bod yr heddlu'n ddiolchgar am unrhyw wybodaeth a gyflwynir gan gynghorwyr a'r cyhoedd. Dywedodd y byddai gweithgareddau Gwylio Cyflymder yn cynyddu, yn enwedig gan fod y gyrru anghymdeithasol ym meysydd parcio Cae Ddôl a Heol y Parc yn parhau. Dywedodd y byddai'n rhannu cynllun gweithredu ar gyfer ymdrin â hyn yn y cyfarfod nesaf. Hefyd nododd eu bod yn y camau cynllunio ar gyfer yr arddangosfa tân gwyllt a gwasanaeth Sul y Cofio. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau holi cwestiynau neu wneud sylwadau.
PENDERFYNWYD*: nodi'r cyflwyniad.*

84. TRAC PWMPIO ARFAETHEDIG YN RHUTHUN

Croesawodd y Maer Osian Owen, Jordan Syme a Rob i roi cyflwyniad ynghylch y prosiect arfaethedig i gael trac pwmpio beics yn Rhuthun. Gwnaethant rannu taflenni gyda'r aelodau'n amlinellu pwrpas cyfleusterau o'r fath, y math a ddymunir ar gyfer Rhuthun a lleoliad traciau eraill tebyg. Roeddynt yn awyddus i godi arian i gael trac dwbl 40m x 40m addas ar gyfer cynnal cystadlaethau, tair neu bedair ras y flwyddyn, gyda'r potensial o ddatblygu cyfres rasus gyda Rhaeadr Gwy. Byddai'n wagle awyr agored ar gael i bawb ar adegau eraill, ac roedd tystiolaeth ei fod yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynnau tân yn fwriadol mewn ardaloedd eraill. Holodd yr aelodau gwestiynau a diolchodd y Maer iddynt am eu cyflwyniad.
PENDERFYNWYD*: ystyried y cynnig ar y cyd gyda'r cais Felodrom Gogledd Cymru.*

85. DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd datganiadau o fuddiant.

86. FELODROM GOGLEDD CYMRU – MYNEGI DIDDORDEB GAN RHUTHUN

Gofynnodd y Maer am gael trafod yr eitem hon yn dilyn y cyflwyniad am y Trac Pwmpio, gan y gellid eu cynnwys yn yr un cais i hyrwyddo cyfleusterau beicio yn Rhuthun. Cytunodd yr aelodau. Darparwyd diweddariad ynghylch llunio'r ddogfen mynegi diddordeb hyd yma, yn dilyn cynnal cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr Cyngor Sir Ddinbych, Clwb Peldroed Rhuthun a Chlwb Criced Rhuthun yn ogystal â'r criw trac pwmpio. Rhaid cyflwyno'r cais yn amlinellu'r cynnig ar gyfer felodrom gyda chae bob tywydd 4G yn y canol a'r opsiwn potensial ar gyfer trac pwmpio i Beicio Cymru erbyn 30 Medi.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad ynghylch mynegi diddordeb gan Rhuthun.*

87. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.

10.07 Cyfarfod gydag Oakwood Construction yn yr Hen Lys a chyflwyno Gwobr Quayle i Ysgol Pen Barras ac Ysgol Stryd y Rhos
14.07 Gwasanaeth Sul Dinesig
15.07 Cyfarfod gyda Mark Allen, Beicio Cymru, cyfarfod gyda Victoria Godberg, Ymgynghorydd Rheoli Dylunio Adeiladu ynghylch yr Hen Lys a chyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio a'r Pwyllgor Cwynion

17.07 Cyfarfod Blynyddol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
19.07 Dychwelyd ac agor tendrau gwaith adnewyddu'r Hen Lys
21.07 Gwasanaeth Sul Dinesig Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych
22.07 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
23.07 Arddangosfa ymgynghori Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn Llyfrgell Rhuthun
29.07 Cyfarfod ynghylch y Felodrom arfaethedig a chyfweliadau Rheolwr yr Hen Lys/Dirprwy Glerc y Dref
30.07 Beirniadu'r arddangosfeydd blodau
31.07 Llofnodi cytundeb yr Hen Lys
03.08 Sesiwn Tîm Tref Taclus
05.08 Cyfarfod gyda'r contractwr ar ddechrau'r gwaith yn yr Hen Lys a chyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
06.08 Ymweld â chyfnewidfa gwisg ysgol Cyngor ar Bopeth yn Neuadd y Farchnad
07.08 Cyfarfod gyda Phrif Weinidog Llywodraeth Cymru, Mark Drakeford, a Joanne Thomas yn yr Hen Lys ynghylch y prosiect, Rhuthun y Dyfodol, Sgwâr Sant Pedr a'r Felodrom
09.08 Cyfarfod gyda pheiriannydd Wales & West yn yr Hen Lys
13.08 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
17.08 Cyfarfod ynghylch offer clyweledol yr Hen Lys a Sioe Flodau Rhuthun
19.08 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys a chyfarfod y Pwyllgor Pwerau Brys
27.08 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
30.08 Cyfarfod gyda Wales & West Utilities yn yr Hen Lys
04.09 Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
07 + 08.09 Penwythnos Drysau Agored – lansio swyddogol, ymweld ag adeiladau a chroesawu ymwelwyr i'r Hen Lys
08.09 Gwasanaeth diolchgarwch y Clychau yn Eglwys Sant Pedr
09.09 Seremoni codi baner y Gwasanaethau Brys yn Neuadd y Sir, Rhuthun a chyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
11.09 Cyfarfod gyda Ben Wilcox Jones, CSDd, ynghylch cerbiau isel a hygyrchedd i'r anabl
12.09 Cyfarfod gyda Ruth Astbury ynghylch y Felodrom arfaethedig
14.09 Rasus Mulod Clwb Rotari Rhuthun

88. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer)	Gwasanaeth Sul Dinesig y Maer, cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfod ynghylch Felodrom Gogledd Cymru, cyfarfod y Pwyllgor Pwerau Brys, seremoni codi baner y Llynges Fasnachol yn Neuadd y Sir, Rhuthun, cynorthwyo gyda chroesawu ymwelwyr i'r Hen Lys yn ystod penwythnos Drysau Agored a'r gwasanaeth diolchgarwch y clychau yn Eglwys Sant Pedr.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru, gwasanaeth diolchgarwch y clychau yn Eglwys Sant Pedr ac ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch cais cynllunio Cymdeithas Tai Clwyd Alyn ym Marchnad y Ffermwyr.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru, cyfarfod Is-bwyllgor Staffio, cyfweliadau Rheolwr yr Hen Lys/Dirprwy Glerc, cyfarfod gyda rheolwyr Tesco ynghylch problemau gyda choed a chynorthwyo gyda chroesawu ymwelwyr i'r Hen Lys yn ystod penwythnos Drysau Agored
Cyng. Jim Bryan	Gwasanaeth Sul Dinesig y Maer, cyfarfod Is-bwyllgor Staffio, cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, cyfweliadau Rheolwr yr Hen Lys/Dirprwy Glerc, Sioe Flodau Rhuthun a chynorthwyo gyda chroesawu ymwelwyr i'r Hen Lys yn ystod penwythnos Drysau Agored
Cyng. Ken Hawkins	Gwasanaeth Sul Dinesig y Maer, Sioe Flodau Rhuthun, Ewcharist a the yn Nantclwyd y Dre, agoriad swyddogol Drysau Agored yn yr Hen

	Lys, gwasanaeth diolchgarwch y clychau yn Eglwys Sant Pedr, Rasus Mulod Clwb Rotari Rhuthun ac ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch cais cynllunio Cymdeithas Tai Clwyd Alyn ym Marchnad y Ffermwyr.
Cyng. John Wynne Hughes	Gwasanaeth Sul Dinesig y Maer.
Cyng. Menna Jones	Gwasanaeth Sul Dinesig y Maer, beirniadu'r arddangosfeydd blodau, Sioe Flodau Rhuthun, cyfarfod yn HSBC efo'r Maer a'r Clerc, cyfarfod Pwyllgor Pwerau Brys, cynorthwyo gyda chroesawu ymwelwyr i'r Hen Lys yn ystod penwythnos Drysau Agored a Rasus Mulod Clwb Rotari Rhuthun yng Nghae Ddôl.
Cyng. Ian Lewney	Gwasanaeth Sul Dinesig y Maer.
Cyng. Jabez Oakes	Gwasanaeth Sul Dinesig y Maer.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Gwasanaeth Sul Dinesig y Maer, 9 Sesiwn Banc Bwyd, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio, arddangosfa Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn Llyfrgell Rhuthun, cyfweliadau Rheolwr yr Hen Lys/Dirprwy Glerc a phenwythnos Drysau Agored – ymweld â sawl safle.
Cyng. Anne Roberts	Gwasanaeth Sul Dinesig y Maer, cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfodydd Cymdeithas Ddinesig Rhuthun, cyflwyno Gwobr Quayle, cyfarfod ynghylch Drysau Agored, Cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio, arddangosfa Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn Llyfrgell Rhuthun, cyfarfodydd Ymlaen Rhuthun, cyfweliadau Rheolwr yr Hen Lys/Dirprwy Glerc, beirniadu'r arddangosfeydd blodau, Ewcharist a the yn Nantclwyd y Dre, cyfarfod y Pwyllgor Pwerau Brys a chroesawu ymwelwyr i'r Hen Lys yn ystod penwythnos Drysau Agored.
Cyng. Dave Snape	Gwasanaeth Sul Dinesig y Maer, Sioe Flodau Rhuthun, cyfarfod Pwyllgor Theatr John Ambrose a chyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys.
Cyng. Ifan Wyn	
Cyng. Emrys Wynne	

89. ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Derbyniodd yr aelodau adroddiad gan y Cynghorydd Sir Emrys Wynne, a oedd yn cyfeirio at ddigwyddiadau y bu ynddynt a materion yr ymdriniodd â nhw dros gyfnod yr haf. Cyfeiriodd at ail ran cynllun tai gofal ychwanegol Llys Awelon a'r goblygiadau i Ganolfan Awelon, ac awgrymodd wahodd y datblygwr, Grŵp Cynefin, i annerch aelodau ynghylch y datblygiad arfaethedig. Adroddodd y Cynghorydd Sir Bobby Feeley ynghylch digwyddiadau a materion y gwnaeth hi ymdrin â nhw hefyd.

90. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2019 yn gywir.*

91. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

92. COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR STAFFIO

Bu'r aelodau'n ystyried cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2019 a'r diweddariad o'r cyfweliadau a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2019.

PENDERFYNWYD*: cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf fel cofnod cywir a chadarnhau cynnig cyflogaeth fel Rheolwr yr Hen Lys/Dirprwy Glerc i Kate Harcus.*

93. COFNODION Y PWYLLGOR PWERAU BRYS

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Awst 2019.
PENDERFYNWYD*: cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Awst 2019 fel cofnod cywir.*

94. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU
Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2019.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2019.*

95. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU
Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2019.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2019.*

96. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS
Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad ynghylch yr Hen Lys. Adroddodd y Maer bod y gwaith mewnol yn bwrw ymlaen yn dda. Diolchwyd iddo am ei waith caled gyda'r prosiect.
PENDERFYNWYD*: derbyn y diweddariad.*

97. MAES CHWARAE'R CAEAU CHWARAE COFFA
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried neges gan y Gymdeithas Caeau Chwarae Coffa ynghylch dyfodol safle'r maes chwarae. Cyfeiriodd yr aelodau at roi'r tir i drigolion Rhuthun, a chwestiynwyd a allai'r Gymdeithas wneud fel y dymuna gyda'r tir. Awgrymwyd y dylai'r Cyngor Tref weld copi o'r gweithredoedd.
PENDERFYNWYD*: gwirio'r gweithredoedd cyn ymgymryd ag unrhyw weithredu pellach.*

98. ADRODDIAD ARCHWILIAD ALLANOL
Esboniodd y Clerc nad oedd yr adroddiad archwiliad allanol gan BD Oar ran Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i dderbyn, ond roedd yn disgwyl adroddiad archwilio yn rhoi barn amodol gan nad oedd gan y Cyngor Tref Reoliadau Ariannol ar wahân a diffyg cylch gwaith ar gyfer yr holl is-bwyllgorau a gweithgorau. Byddai'n trefnu cyfarfod i'r Is-bwyllgor Craffu Ariannol i ystyried y Rheoliadau Ariannol Enghreifftiol cyn eu cyflwyno gerbron y Cyngor i'w mabwysiadu ac yn gofyn i'r SLCC am gylch gwaith enghreifftiol hefyd.
PENDERFYNWYD*: nodi'r sefyllfa ac ystyried yr Adroddiad Archwiliad Allanol unwaith y bo wedi'i dderbyn.*

99. DATGANIADAU ARIANNOL
Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiadau ariannol am y cyfnodau'n diweddu 30 Gorffennaf a 31 Awst 2019. Dywedodd y Clerc fod yr hawliad TAW wedi'i dalu, a gofynnodd am gael ad-dalu'r elfen TAW yn berthnasol i'r Hen Lys i'r cyfrif banc perthnasol.
PENDERFYNWYD: *derbyn a chymeradwyo'r datganiadau ariannol am y cyfnodau'n diweddu 30 Gorffennaf 2019 a 31 Awst 2019 a chymeradwyo ad-dalu'r TAW yn berthnasol i'r Hen Lys i gyfrif yr Hen Lys.*

100. CYFRIFON I'W TALU
PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*
O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

100219	Viking	100 stamp ail ddosbarth a phapur A4	*	£102.14
100220	Hill & Roberts	Gwasanaeth cyfrifyddu a chyflogres, Medi 2019	*	£84.00
100221	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau dyfrio, yn cynnwys y coes a gwrtaith i'r basgedi crog – Awst 2019		£1,465.00
100222	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau torri glaswellt – Awst 2019		£352.26
100223	Planhigion Glyndwr	Plannu a chyflenwi 80 o fasgedi crog	*	£3,214.80
100224	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£354.12

100225	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd – cyfweliadau a chyfarfodydd mis Medi	*	£270.00
O gyfrif Cyngor Tref Rhuthun – Yr Hen Lys				
100001	Lyco Group Ltd	Deunyddiau goleuo	*	£1,999.18
100003	Berwyn Slate Quarry Ltd	Llechi'r llawr	*	£3,240.00
100004	Trade Radiators	Rheiddiaduron	*	£6,328.00
100005	The Sanitary Ware Co.	Eitemau glanweithdra	*	£999.48
100006	Cyng. Gavin Harris	Ad-daliad am siec 100001 i Lyco wedi'i hatal		£1,999.18

101. YMGYNGHORI CYN CYFLWYNO CAIS CYNLLUNIO – TIR YNG NGLASDIR, RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried ymhellach yr ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio gan Clwyd Alyn Housing Ltd ynghylch cais cynllunio ar gyfer 77 annedd ar dir yng Nglasdir, Rhuthun, yn dilyn yr arddangosfa gyhoeddus ynghylch y cynigion. Dywedodd rhai aelodau eu bod wedi myned i'r digwyddiad ymgynghori cyhoeddus ynghylch y cais arfaethedig, a'u bod yn teimlo bod llawer o gwestiynau heb eu hateb yn foddhaol.

PENDERFYNWYD: *gofyn i'r aelodau anfon eu sylwadau at y Clerc a fyddai'n casglu'r ymatebion ynghyd i'w hanfon at y datblygwr.*

102. CYNNIG CYNGOR SIR DDINBYCH I SYMUD ARCHIFAU SIR DDINBYCH O GARCHAR RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried goblygiadau'r bwriad i gyfuno Archifau Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn yr Wyddgrug. Roedd yr aelodau wedi'u brawychu gan y cynnig, yr oeddynt wedi dod i wybod amdano trwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac roeddynt yn teimlo fod y Cyngor Tref wedi'i anwybyddu. Awgrymwyd gwahodd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yng Nghyngor Sir Ddinbych, Mr Alan Smith, i gyfarfod nesaf y Cyngor i drafod y cynigion.

PENDERFYNWYD: *gwahodd Mr Alan Smith o Gyngor Sir Ddinbych i annerch y Cyngor ynghylch y cynnig arfaethedig.*

RHAN DAU

Cynigiwyd ac eiliwyd ystyried yr eitem a ganlyn yn breifat. Gadawodd y Clerc y cyfarfod ar y pwynt hwn.

104. CYFLOG CLERC Y DREF

Derbyniodd yr aelodau fanylion am gyflog Clerc y Dref a'r costau teithio a hawliwyd am y cyfnod Ebrill 2019 i Fedi 2019.

PENDERFYNWYD*: derbyn y manylion ac awdurdodi talu'r £33.00 cyflog dyledus a £53.10 am gostau teithio.*

105. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 21 Hydref 2019 am 7.00pm.*